**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 27 Medi 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | D W Helliwell | P K Jones |
| L R Jones | C Richards | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal |
| Jane Storer | Uwch-gynghorydd Hawliau Lles |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner, K M Roberts a/ac L V Walton

---

## 13 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 14 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

## 15 Datblygu Polisi Adennill Dyled Personol Corfforaethol a'r camau nesaf. (Llafar) (Anthony Richards)

Rhoddodd Anthony Richards, Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal ddiweddariad llafar ynghylch datblygu Polisi Adennill Dyledion Personol Corfforaethol a'r camau nesaf.

Amlinellwyd y cynhaliwyd sesiwn weithdy ym mis Awst a chysylltwyd â gwasanaethau ar draws yr Awdurdod i roi adborth ynghylch eu trefniadau adennill dyledion presennol.  Ychwanegwyd bod nifer o feysydd gwasanaeth wedi darparu

adborth, gan gynnwys sylwadau gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ar y broses o adennill dyledion.

Y camau nesaf fyddai edrych ar y manylion a ddarparwyd gan bob maes gwasanaeth a gweithio ar egwyddorion darparu polisi a chymorth ar draws yr Awdurdod cyfan.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol ddechrau am
3pm er mwyn caniatáu i gyfarfodydd gweithgor gael eu cynnal yn syth ar ôl i gyfarfod y Pwyllgor ddod i ben. Ychwanegwyd bod yn rhaid i holl Aelodau'r Pwyllgor gytuno i'r newid amser.

Ychwanegodd hefyd y dylid gwneud cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf a fydd yn edrych ar weithdrefnau'r maes gwasanaeth ynghylch yr holl ddyled bersonol sy'n ddyledus i'r Awdurdod. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn edrych ar enghreifftiau o arfer gorau.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf;
2) Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol yn dechrau am 3pm., yn amodol ar Gynghorwyr sy'n absennol hefyd yn cytuno i'r newid;
3) Bydd y Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal yn trefnu sesiwn weithdy yn syth ar ôl i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd ddod i ben, i drafod y pwnc hwn.

**16 Diweddariad ar yr ymgyrch i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau. (Anthony Richards / Jane Storer)**

Cyflwynodd Jane Storer, Uwch-gynghorydd Hawliau Lles, adroddiad 'er gwybodaeth' am y problemau o ran hawlio budd-daliadau, y rhesymau dros dan-hawlio, enghraifft o waith a wnaed yn y gorffennol i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau, ymgyrchoedd cyfredol, nodi blaenoriaethau yn y dyfodol o ran cynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau a sut y gallai'r Pwyllgor gefnogi'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Amlinellwyd bod y Pwyllgor wedi nodi'r angen i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau yn Abertawe. Nod cynyddu nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau oedd sicrhau bod pobl yn hawlio’r hyn y mae ganddynt hawl iddo ac yn cynyddu incwm eu cartref. Darparwyd yr adroddiad a roddwyd i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2021 yn Atodiad 1.

Nododd yr adroddiad y problemau o ran hawlio budd-daliadau gan gynnwys: -

- Pobl sydd â diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system fudd-daliadau;
- Staff yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cael eu hyfforddi yn y meysydd maent yn gweithio ynddynt yn unig, a'u diffyg gwybodaeth gyffredinol;
- Mae pobl sy'n cysylltu â chanolfan alwadau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn aml yn cael y cyngor anghywir, gan gredu nad oes ganddynt hawl i unrhyw fudd-daliadau pan fo'r gwrthwyneb yn wir;
- Roedd yr hawl yn dibynnu ar amgylchiadau unigolyn ac roedd yn aml yn gymhleth;

- Sefydliadau sy'n cynnig mynediad at gyngor diduedd am ddim yn cael eu llethu gan nifer y ceisiadau;
- Y newidiadau cyson sy'n cael eu gwneud i'r system fudd-daliadau, hawliau hawlwyr i fudd-daliadau yn newid, ac amgylchiadau newidiol sy'n effeithio ar hawlogaeth, nad yw hawlwyr budd-daliadau'n sylweddoli bod y rhain yn cael effaith.

Amlinellodd yr adroddiad graddau'r tan-hawlio a'r rhesymau dros hyn; yr hyn sy'n gweithio, gan gynnwys cymorth un-i-un wedi'i deilwra; beth oedd yn digwydd ar hyn o bryd, gan gynnwys yr ymgyrch hawlio Credyd Pensiwn ac ymgyrchoedd hawlio eraill.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Amlygu'r materion gyda sefydliadau lleol / Cynghorau Tref a Chymuned a chynnwys manylion ar eu gwefannau / cylchlythyrau / cyfryngau cymdeithasol;
- Sicrhau bod pobl yn hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo a bod Cydlynwyr Ardaloedd Lleol (LAC) yn cefnogi unigolion mewn cymunedau;
- Adolygu'r strategaeth bresennol a datblygu polisi'r cyngor;
- Gwaith presennol yr Uned Hawliau Lles, y dulliau y maent yn eu defnyddio a'r diffyg adnoddau sydd ar gael;
- Y posibilrwydd o dynnu sylw at wybodaeth Credyd Pensiwn gyda biliau blynyddol Treth y Cyngor;
- Cylch gwaith CALl – i wneud pobl yn fwy dyfeisgar;
- Opsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor i ddatblygu materion, gan gynnwys cael cwmpas gan yr Aelod Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad a dywedodd y byddai'n trafod y mater ymhellach gyda'r Aelod Cabinet.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad a thrafod y mater ymhellach mewn cyfarfodydd gweithdy/Pwyllgor yn y dyfodol.

## 17 Tegwch mewn Iechyd Gwyrdd. (Deb Hill)

Cyflwynodd Deb Hill, Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur, adroddiad a oedd yn ceisio ystyried yr opsiynau mewn perthynas â'r camau nesaf o ddatblygu polisi Tegwch mewn Iechyd Gwyrdd.

Amlinellwyd bod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi (PDC) ym mis Medi 2019 wedi penderfynu datblygu Polisi Tegwch mewn Iechyd Gwyrdd (a elwid gynt yn Bolisi Iechyd Gwyrdd). Datblygwyd polisi drafft gan weithgor y Pwyllgor a gafodd ei lywio gan ymchwil a'r sylfaen dystiolaeth ehangach am fanteision yr amgylchedd naturiol a'i effaith o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a lles, cyflwyniadau gan siaradwyr allanol fel Cyfoeth Naturiol Cymru a thrafodaethau parhaus.

Ychwanegwyd mai prif nod y polisi oedd hyrwyddo'r ddarpariaeth isadeiledd gwyrdd o ansawdd uchel a mannau gwyrdd naturiol mewn cymdogaethau difreintiedig, er

mwyn gwella anghydraddoldebau iechyd a lles a chynyddu'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.  Awgrymodd y polisi drafft y gallai'r cyngor hyrwyddo tegwch mewn iechyd gwyrdd mewn nifer o ffyrdd a thrwy ystod eang o weithgareddau e.e. plannu coed, rheoli gwrychoedd ac ymylon, gwella ansawdd a mynediad i barciau, bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur, sicrhau bod systemau draenio cynaliadwy yn bodoli a chymryd camau i leihau llygredd aer.

Amlygwyd sut yr oedd yr adroddiad yn cyd-fynd â pholisïau presennol y cyngor, a ddylid mabwysiadu'r polisi fel polisi annibynnol, wedi'i integreiddio fel amcan i strategaethau a chynlluniau presennol, neu fel polisi a fabwysiadwyd fel polisi hybrid byr a gyflwynwyd ac a adroddwyd drwy gynlluniau a strategaethau presennol.

Nodwyd, ni waeth pa opsiwn y cytunwyd arno, bod cafeat bod angen i degwch gwyrdd fod yn un o gyfres o feini prawf a ddefnyddiwyd i farnu prosiectau/ymyriadau, gan gynnwys cysylltedd, yr angen am ymyriadau Isadeiledd Gwyrdd ac addasrwydd yr isadeiledd gwyrdd (h.y. beth mae'r ymyriad yn ceisio'i ddatrys, fel llifogydd neu lygredd aer, unrhyw amodau grant penodol etc.  Yn yr un modd, dylai bwriadau Isadeiledd Gwyrdd hefyd ddilyn y 5 egwyddor Isadeiledd Gwyrdd – amlswyddogaethol, wedi'i addasu i newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, iechyd a lles a deallus a chynaliadwy.  Darparodd Atodiad A y Polisi Tegwch mewn Iechyd Gwyrdd drafft.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried tri opsiwn mewn perthynas â datblygu polisi Tegwch mewn Iechyd Gwyrdd ymhellach: -

- Polisi annibynnol
- Wedi'i integreiddio fel amcan i strategaethau a chynlluniau sy'n bodoli eisoes
- Polisi hybrid

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Y gwahaniaeth amlwg mewn disgwyliad oes mewn ardaloedd difreintiedig;
- Y tlodi/amddifadedd a oedd yn bodoli mewn rhai wardiau lle'r oedd cyfoeth mawr hefyd;
- Y modd y cafodd ardaloedd o amddifadedd eu trin o'u cymharu ag ardaloedd cefnog;
- Yr angen i gynnwys pobl leol mewn unrhyw bolisïau newydd wrth symud ymlaen i gam 'ymrwymo';
- Adnoddau i fwrw ymlaen â'r polisi yn y tymor hir a pharhau i'w reoli;
- Cyllid grant a gafwyd i gefnogi swyddi;
- Nodi ardaloedd o amddifadedd;
- Angen proses ymgynghori bosib.

**Penderfynwyd:**   -

1) Cymeradwyo'r opsiwn polisi hybrid ond gellid ei ehangu i gynnwys unrhyw elfennau priodol o opsiwn 2;
2) Adrodd am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 18 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2021-2022.

Amlinellodd fod yr Aelod Cabinet wedi gofyn i'r Pwyllgor drafod y Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol yn y cyfarfod nesaf.

Tynnodd Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau i Oedolion, sylw at waith Cydlynwyr Ardaloedd Lleol ac ychwanegodd y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith, yn enwedig sut maent yn mynd i'r afael â thlodi.

Dywedodd Craig Davies, Cyfreithiwr Cyswllt, fod angen trafodaethau pellach y tu allan i'r cyfarfod ynglŷn â'r ymgynghoriad cyhoeddus posib sydd ei angen ar gyfer y Polisi Tegwch mewn Iechyd Gwyrdd.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Trafod y Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol yng nghyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 25 Hydref 2021;
3) Ychwanegu gwaith Cydlynwyr Ardaloedd Lleol at y rhestr o bynciau i'w trafod.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.38 pm

**Cadeirydd**